# Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

## Cofnodion (CC(3)-19-08)

**Dyddiad: 22 Hydref 2008**
**Amser: 9:00 - 11:25am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

Janice Gregory, Ogwr (Cadeirydd)
Peter Black, Gorllewin De Cymru
Paul Davies, Preseli Sir Benfro
Nerys Evans, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lesley Griffiths, Wrecsam
Mark Isherwood, Gogledd Cymru
Dai Lloyd, Gorllewin De Cymru
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Lara Date, Clerc
Annette Millett, Dirprwy Glerc

### Eraill yn Bresennol

Dr Brian Gibbons, Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
Emyr Roberts, Pennaeth yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
Owain Lloyd, Pennaeth Uned Fusnes yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
Julia Houlston-Clark, Cydlynydd Cyfiawnder Adferol, Carchar Caerdydd
Karon Eyers, Cymorth i Ddioddefwyr, Gwent
Sara Kovach-Clark, Pennaeth Polisi Teuluol, Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Anne Haynes, Cyd Gyfarwyddwr Sea Change Domestic Violence Training and Consultancy

### 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r pwyllgor a'r cyhoedd. 1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Lynne Neagle AC. 1.3 Nododd y pwyllgor nad oedd y Pwyllgor Busnes wedi cytuno i sefydlu pwyllgor ar wahân i ystyried cyfnod 2 Adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaethau Cyhoeddus. Cytunodd i sefydlu is-bwyllgor i'r diben hwnnw. Bydd y Clerc yn drafftio cylch gorchwyl ar gyfer yr is-bwyllgor, y gellid cytuno arno'n ffurfiol yn y cyfarfod nesaf ar 5 Tachwedd. **Pwynt Gweithredu**

Y Clerc i ddrafftio cylch gorchwyl i is-bwyllgor ystyried ail gyfnod Adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaethau Cyhoeddus.

**2: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009-10**

Papur:

CC(3)-19-08 - Papur 1

2.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan y pwyllgor.

**Pwynt Gweithredu**

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i ddarparu mwy o wybodaeth i'r pwyllgor am Gynlluniau Rheoli Asedau Llywodraeth Leol.

**3: Tystiolaeth ar gyfer Ymchwiliad y Pwyllgor i Gam-drin Domestig**

Papurau:

CC(3)-19-08 - Papur 2

CC(3)-19-08 - Papur 3

CC(3)-19-08 - Papur 4

CC(3)-19-08 - Papur 4a

3.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan y Pwyllgor.

**Pwynt Gweithredu**

Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol i ddarparu nodyn i'r pwyllgor am gyfran yr achosion o gam-drin domestig lle cafodd gorchmynion llys eu rhoi, y math o orchymyn (hy gorchmynion i gadw rhag ymyrryd neu orchmynion meddiannu), ac a oes unrhyw wahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr.

**Papur i'w Nodi:**

**Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Papur: CC(3)-18-08

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 15 Hydref 2008.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Hydref 2008**